

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Iechyd Criccieth, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 15 Gorffennaf 2025

Dyddiad cyhoeddi: 15 Hydref 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	25
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	27
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	29

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Iechyd Criccieth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 15 Gorffennaf 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr ac ni chwblhawyd yr un holiadur gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff yn darparu amrywiaeth dda o wybodaeth i'r cleifion ar wefan y practis am y gwasanaethau a ddarperir a'r ffordd i'w trefnu. Roedd y posteri a'r taflenni yn y practis yn rhoi cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd.

Roedd prosesau da ar waith i sicrhau bod cleifion yn gallu cael y gwasanaethau cywir mewn modd amserol. Dywedodd 9 o'r 12 o gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn gallu cael apwyntiadau pan oedd eu hangen arnynt, ac apwyntiadau ar yr un diwrnod ar gyfer materion brys.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Fodd bynnag, roedd y cyfyngiadau corfforol yn y dderbynfa yn ei gwneud yn anodd cyfathrebu ac yn effeithio ar breifatrwydd y cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod taflen wybodaeth i gleifion ar gael yn hwylus i'r cleifion
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau cyfathrebu ger desg y dderbynfa.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Darpariaeth dda o wasanaethau a deunyddiau Cymraeg.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod staff Canolfan Iechyd Criccieth yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion. Roedd y cleifion yn cael budd o amrywiaeth o wasanaethau yn y practis. Roedd y staff clinigol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i rannu'r gwersi a ddysgwyd a chefnogi hyfforddeion.

Roedd mesurau clir ar waith i atal a rheoli heintiau, a phrosesau effeithiol i reoli argyfyngau meddygol.

Roedd prosesau da ar waith er mwyn helpu i ddiogelu plant ac oedolion. Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel, ac roeddent yn fanwl ac yn rhoi naratif clir am gyflwr a thriniaeth y cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal archwiliad ffurfiol o ragnodwyr sy'n feddygon teulu locwm a rhagnodwyr anfeddygol a'u goruchwyllo

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adolygiad effeithlon o'r profion gwaed
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau i safon uchel
- Roedd lefel uchel o adolygiadau o feddyginiaethau wedi'u cwblhau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn rhan o Hwb Iechyd Eifionydd ac yn cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Roedd recriwtio a chadw staff yn fater sylweddol i'r practis, a oedd yn rhoi mwy o bwysau ar yr aelodau o staff presennol. Roedd hyn wedi cyfrannu at forâl isel ac roedd uwch-aelodau o staff yn ymdrechu i wella'r sefyllfa.

Roedd y practis yn gwneud defnydd da o gymorth gan y bwrdd iechyd, gan gynnwys y defnydd o bolisiau a gweithdrefnau. Gwnaethom gynghori y dylid rhoi dogfennau sy'n benodol ar gyfer y safle ar waith lle y bo'n berthnasol.

Roedd dull cadarnhaol ar waith i ddatblygu staff, ond roedd angen mynd i'r afael â lefel y gydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant gorfodol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

Wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff, gwelsom lefelau cydymffurfiaeth gwael â gofynion hyfforddiant gorfodol. Nid oedd chwe aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelwch Tân diweddaraf. Roedd hyn yn peri mwy o risg i ddiogelwch cleifion a staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi arweiniad clir i'r staff o ran rolau a chyfrifoldebau
- Parhau i ymdrechu i wella lefelau staffio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoi mentrau newydd ar waith, fel sesiynau 'win and whinge'.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Roedd y cleifion a fynegodd eu barn yn holiadur AGIC yn fodlon ar y safle a'r cyfleusterau a gynigir ar y cyfan, ac roedd pob un ohonynt yn cytuno ei fod yn lân a bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith.

Roedd pob ymatebydd a fynegodd ei farn yn teimlo bod y meddyg teulu wedi esbonio pethau'n dda iddo, ei fod yn teimlo bod rhywun yn gwrandao arno a'i fod wedi cael ei drin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, roedd hanner yr ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu siarad â staff y dderbynfa heb i neb arall eu clywed.

Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn dda iawn neu'n dda, ar y cyfan.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Staff Gwych! Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn broffesiynol"

"Trefnais apwyntiad i weld meddyg teulu. Ar ôl eistedd yn yr ystafell aros am bron i awr ar ddiwrnod fy apwyntiad, cefais wybod nad oedd apwyntiad wedi cael ei drefnu ar fy nghyfer! Mae'n anodd siarad â'r staff dros y ffôn gan nad ydynt yn ateb"

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Roedd amrywiaeth eang o daflenni a phosteri gwybodaeth iechyd ar gael i gleifion yn ardal y dderbynfa, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, yfed llai o alcohol a bwyta'n iach. Roedd gwefan y practis yn cynnwys adran hunangymorth a llesiant, gyda dolenni ar gyfer cael cymorth a chynghor ar amrywiaeth o bynciau.

Roedd dyfais monitro hunanwasanaeth ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion fesur eu taldra, cymryd eu pwysau a'u pwysedd gwaed. Roedd y ddyfais hon yn gweithio drwy ddefnyddio tocynnau a ddarperir gan staff y dderbynfa ac roedd canlyniadau'r cleifion yn cael eu hargraffu.

Roedd gwybodaeth am y practis ar gael ar wefan y practis, gan gynnwys manylion cyswllt, y gwasanaethau a ddarperir a sut i roi adborth. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fersiwn wedi'i hargraffu o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis.

Rhaid i'r practis sicrhau bod taflen wybodaeth i gleifion ar gael yn hwylus yn y practis.

Gwnaethom argymhell y dylid diweddarau'r wybodaeth sydd ar wefan y practis, er enghraifft i adlewyrchu bod ap GIG Cymru yn cael ei ddefnyddio yn lle Fy Iechyd Ar-lein.

Dylai'r practis adolygu a diweddarau cynnwys gwefan y practis.

Roedd pawb a ymatebodd i'n holiadur cleifion yn cytuno bod deunyddiau hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos, ac roedd y rhan fwyaf yn cytuno eu bod yn cael cynnig cyngor ar ffyrdd iach o fyw.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o glinigau a gwasanaethau ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau fflebotomi, sbirometregy, asesiadau ffisiotherapi, awdioleg (chwistrellu'r glust) a therapi galwedigaethol ar gyfer iechyd meddwl. Roedd tri Ymarferydd Gofal Brys ar gael yn y practis a oedd yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer ymweliadau â chartrefi. Roedd tîm rhagnodi'r fferyllfa yn darparu asesiadau wyneb yn wyneb ar gyfer cleifion â diabetes a chyflyrau cronig.

Roedd y cynnig o frechiadau rhag y firws syncytiol anadlol (RSV) yn cael ei reoli gan dîm brechu'r bwrdd iechyd. Roedd rhaglenni brechu ar gyfer fliw y gaeaf a COVID-19 yn cael eu rhedeg fel cynlluniau cyfunol ac roedd y practis yn rhannu gwybodaeth ac yn hyrwyddo'r ymgyrchoedd a'r bwrdd iechyd yn anfon gwahoddiadau at y cleifion. Fel arfer, byddai'r cleifion yn cael tri gwahoddiad yn cynnwys dwy neges destun SMS a llythyr.

Roedd staff y practis yn gweithio gyda'r grŵp cyfranogiad cleifion i sicrhau eu bod yn cael y gofal cywir gan y gwasanaethau cywir. Cynhaliwyd ymweliadau â chartrefi yn ddyddiol, gyda'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cynnal mewn pum cartref gofal. Dywedodd y staff wrthym fod nifer yr ymweliadau â chartrefi yn ogystal â'u gwasgariad daearyddol yn her ac roedd trafodaethau'n cael eu cynnal am y ffordd i'w rheoli'n fwy effeithiol.

Gofal urddasol a pharchus

Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i gleifion, gyda gwydr barugog yn y ffenestri a'r drysau'n cael eu cadw ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd llenni preifatrwydd a sgriniau hefyd ar gael.

Roedd cyfrifiadur sgrin gyffwrdd ar gael i gleifion gofrestru ar ôl cyrraedd. Roedd y sgrin hon yn cynnwys opsiwn iaith Gymraeg a gosodiad cyferbyniad uchel ar gyfer cleifion ag amhariad ar y golwg.

Roedd sgrin ger desg y dderbynfa oherwydd materion iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, roedd y sgrin a chynllun yr ardal staff yn amharu ar y trefniadau cyfathrebu, a oedd yn golygu bod angen i'r staff a'r cleifion siarad yn uwch. Roedd hyn yn effeithio ar breifatrwydd y cleifion oherwydd gallai'r cleifion yn yr ardal aros glywed y trafodaethau. Nid oedd unrhyw gerddoriaeth yn cael ei chwarae ac nid oedd y teledu yn ardal aros y cleifion yn gweithio yn ystod yr arolygiad, a oedd yn golygu bod modd clywed y sgysiau ger y dderbynfa yn hawdd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r mater hwn ac archebwyd system meicroffon a dolen sain.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff mesurau eu rhoi ar waith er mwyn gwneud yn siŵr y gellir cyfathrebu â chleifion ger desg y dderbynfa yn effeithiol ac yn breifat.

Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion sydd am gael sgwrs breifat yn cael eu tywys i ystafell rydd yn yr ardal glinigol.

Roedd polisi hebryngwr ar waith yn y practis ac roedd hebryngwyr gwrywaidd a benywaidd ar gael yn ôl yr angen. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r polisi hwn er mwyn cynnwys manylion diweddaraf y staff a'r practis a dogfennu gwybodaeth reoli. Roedd gwybodaeth am argaeledd hebryngwyr ar gael ar wefan y practis ond nid oedd wedi'i harddangos yn glir ar y safle. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion, ond ni fyddai wedi bod angen cynnig hebryngwr ar gyfer yr archwiliadau a welsom. Gwnaethom nodi fod un claf wedi gwrthod cael ei archwilio a bod y staff wedi parchu a chofnodi hyn.

Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r polisi hebryngwr ac arddangos gwybodaeth am y gwasanaeth i gleifion yn glir mewn ystafelloedd ymgynghori a thrin.

Roedd pedwar claf a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn yn cytuno eu bod wedi cael cynnig hebryngwr ar gyfer archwiliadau neu driniaethau personol, ac roedd un ymatebydd yn anghytuno.

Amserol

Gofal amserol

Roedd apwyntiadau'n cael eu trefnu dros y ffôn yn bennaf, a gellid hefyd eu trefnu yn bersonol neu drwy wneud cais dros e-bost. Gellid trefnu apwyntiadau â nyrsys ymlaen llaw ac roedd yn bosibl trefnu apwyntiad ar-lein ar gyfer rhai gwasanaethau, fel profiad gwaed.

Byddai staff y dderbynfa yn trafod gofynion yr apwyntiad â'r cleifion gan ddefnyddio protocol dynodedig ac yn eu cyfeirio at y clinigydd mwyaf priodol. Byddai plant bob amser yn cael eu gweld ar ddiwrnod y cais. Pan fo apwyntiadau â meddygon teulu yn llawn, roedd proses ar waith i frysennu unrhyw geisiadau pellach am apwyntiadau a byddai'r meddygon teulu yn ymdrechu i weld cleifion yn unol â'u hanghenion clinigol. Roedd y cleifion yn cael cyngor ar rwydi diogelwch os yw'n debygol y bydd eu cyflwr yn gwaethygu ac yn cael eu harchwilio ar fyrder pe bai angen.

Gan fod y dalgylch yn lleoliad poblogaidd â thwristiaid, roedd niferoedd y cleifion yn cynyddu'n sylweddol yn ystod misoedd yr haf a oedd yn her. Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion yn cael eu cynghori i gysylltu â gwasanaeth 111 y GIG neu fynd i adran damweiniau ac achosion brys mewn amgylchiadau prin pan fo'r apwyntiadau i gyd yn llawn.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar oriau agor y practis. Roedd 9 o'r 12 o ymatebwyr yn cytuno eu bod yn gallu cael apwyntiadau cyffredin pan oedd eu hangen arnynt ac apwyntiadau ar yr un diwrnod mewn achosion brys, ac roedd tri ymatebydd yn anghytuno.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu defnyddio gwasanaeth cyfieithu er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion nad Saesneg yw eu mamiaith. Nid oedd y manylion ar gael yn hawdd, ond datryswyd y mater hwn yn ystod yr arolygiad lle daethpwyd o hyd i fanylion cyswllt a'u harddangos yn swyddfa'r dderbynfa.

Roedd arwyddion a gwybodaeth i gleifion ar gael yn ddwyieithog. Roedd nifer o siaradwyr Cymraeg yn y practis, ac roedd y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei arddangos i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith yn y practis. Gwelsom fod y staff yn gwisgo laniardau a bathodynau 'laith Gwaith' fel bod y cleifion yn gallu gweld eu bod yn siarad Cymraeg. Gwelsom y staff yn siarad â'i gilydd a'r cleifion yn Gymraeg.

Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei chynnig ac ni welwyd ei bod ar gael mewn fformatau amgen, fel print bras.

Dylai'r practis ystyried p'un a ellid darparu unrhyw wybodaeth i gleifion mewn fformat angen.

Roedd sylwadau'r cleifion a wnaed mewn ymateb i holiadur AGIC a'r arsylwadau yn ystod yr arolygiad yn awgrymu nad oedd y cleifion bob amser yn siŵr a fyddai eu hapwyntiad yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Iechyd Criccieth neu'r chwaer bractis ym Mhorthmadog. Efallai y byddai rheolwr y practis yn dymuno ystyried hyn wrth geisio adborth gan gleifion, er mwyn nodi a yw'n fater y mae angen mynd i'r afael ag ef.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd gan y practis faes parcio am ddim gyda baeau parcio dynodedig ar gyfer pobl anabl y tu allan i'r drysau a ramp mynediad er mwyn helpu cleifion â phroblemau symudedd. Roedd drysau awtomataidd ym mlaen yr adeilad, gyda drws confensiynol mwy llydan yn syth wedyn.

Roedd pob ardal i gleifion wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, gyda llawr gwastad ym mhob man. Roedd desg y dderbynfa yn cynnwys rhan is a oedd yn hygyrch i gleifion mewn cadair olwyn. Roedd cadair olwyn ar gael i gleifion ei defnyddio yn y practis. Roedd dau doiled i fenywod a dynion. Roedd un ohonynt yn addas i gadeiriau olwyn ac roedd handlenni cydio a larwm brys wedi'u gosod.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod yr adeilad yn hygyrch a bod seddi a thoiledau addas ar gael.

Gan fod y practis yn cael ei reoli gan y bwrdd iechyd, roedd wedi mabwysiadu polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol BIPBC.

Er mwyn parchu hawliau cleifion trawsryweddol, dywedodd y staff eu bod yn sicrhau eu bod yn defnyddio enwau a rhagenwau priodol. Roedd Gwasanaeth Hunaniaeth Rywedd yn cael ei gynnig ar y safle a oedd yn sicrhau y gallai'r staff gael gwybodaeth a chynghor ychwanegol lle bo angen.

Dywedodd y staff wrthym fod Grŵp Cyfranogiad Cleifion ar waith yn y practis, a bod yr aelodau yn weithgar yn y gymuned leol ac yn barod i helpu i rannu gwybodaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad yn lân ac yn daclus ar y cyfan, heb unrhyw annibendod. Byddai rhai ardaloedd yn elwa o gael eu hadnewyddu ac roedd tystiolaeth i ddangos bod dŵr wedi difrodi nenfwd y dderbynfa yn y gorffennol. Dywedodd y staff wrthym fod ceisiadau am waith cynnal a chadw yn cael eu rheoli drwy'r bwrdd iechyd a'u datrys yn brydlon ar y cyfan.

Roedd Cynllun Parhad Busnes ar waith, ond roedd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyfredol, yn berthnasol i'r practis ac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau.

Rhaid i'r practis adolygu'r Cynllun Parhad Busnes er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol, yn berthnasol i'r practis ac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau.

Roedd rheolwr y practis yn gyfrifol am sicrhau bod rhybuddion am ddiogelwch cleifion yn cael eu hanfon at y practis a'u rhannu mewn cyfarfodydd.

Roedd y practis yn gwasanaethu pump cartref gofal lleol lle roedd angen ymweld â nhw yn rheolaidd. Roedd y staff yn gallu disgrifio'r prosesau priodol ar gyfer asesu a rheoli achosion difrifol lle roedd angen cymorth staff y gwasanaeth ambiwlans yn ystod ymweliadau â chartrefi.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisiâu atal a rheoli heintiau a rheoli gwastraff ar waith ac ar gael i bob aelod o'r staff. Gwnaethom nodi mai polisiâu cyffredinol y bwrdd iechyd oedd y dogfennau yn hytrach na fersiynau a oedd yn benodol i'r safle.

Roedd y practis wedi penodi nyrs benodol yn arweinydd atal a rheoli heintiau a dangosodd y staff ddealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael gafael ar ganllawiau cyfredol drwy gysylltu â thîm atal a rheoli heintiau y bwrdd iechyd ac ar y fewnrwyd.

Roedd pob ystafell glinigol yn cynnwys cyfarpar ac adnoddau priodol i gynnal prosesau hylendid dwylo a glanhau arwynebau. Roedd y practis yn daclus ac yn drefnus, a oedd yn helpu i atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth bod contract glanhau ar waith, ynghyd ag archwiliad o'r gweithgareddau glanhau.

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith mewn perthynas â brechiadau'r staff a'r broses i'w dilyn pe bai staff yn cael anaf wrth ddefnyddio nodwydd neu offer miniog. Yr ysbyty lleol oedd yn darparu cymorth iechyd galwedigaethol. Nid oedd siartiau llif a oedd yn dangos y broses i'w dilyn pe bai anaf a achosir gan nodwydd yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd clinigol.

Dylai'r practis sicrhau y caiff siartiau llif sy'n dangos y broses i'w dilyn pe bai anaf a achosir gan nodwydd eu harddangos yn yr ystafelloedd clinigol.

Roedd brechiadau'r staff yn erbyn Hepatitis B yn cael eu rheoli gan wasanaeth iechyd galwedigaethol y bwrdd iechyd. Byddai'r gwasanaeth yn cysylltu â staff unigol yn ôl yr angen ac yn hysbysu rheolwr y practis i sicrhau ei fod yn eu goruchwyllo.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'lân'.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y practis yn defnyddio nifer o ragnodwyr anfeddygol, gan gynnwys fferyllwyr, a ffisiotherapydd, uwch-ymarferydd nyrsio a pharafeddygon. At hynny, cafodd nifer sylweddol o feddygon teulu locwm eu cyflogi. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod pob un ohonynt wedi cael eu goruchwyllo gan weithiwr proffesiynol. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylid rhoi prosesau ffurfiol ar waith i asesu'r ymgynghoriadau a'r trefniadau rhagnodi a gynhelir ac archwilio iddynt.

Dylai'r practis sicrhau y caiff yr ymgynghoriadau a'r trefniadau rhagnodi a gynhelir gan feddygon teulu locwm a rhagnodwyr anfeddygol eu harchwilio.

Disgrifiodd y staff sut roedd y practis wedi ymateb yn effeithiol i adroddiad 'atal marwolaethau yn y dyfodol' y crwner (hysbysiad Rheoliad 28) mewn perthynas ag adolygiadau o feddyginiaethau. Ym mis Ionawr 2025, dim ond 45% o'r cleifion sy'n cael meddyginiaeth reolaidd yn y practis oedd wedi ymgymryd ag adolygiadau o feddyginiaeth a chynyddodd y ganran hon i 95% mewn tua chwe mis.

Roedd brechlynnau'n cael eu storio'n briodol mewn oergelloedd brechlynnau pwrpasol a oedd yn cael eu cynnal a'u cadw a'u calibradu'n briodol bob blwyddyn. Roedd dogfen gyfredol ar waith ar gyfer y broses cadwyn oer i sicrhau bod meddyginiaethau y mae angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen hon yn cynnwys cyfeiriad at bolisi cenedlaethol nac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau, fel dyddiad adolygu.

Dylai'r practis adolygu dogfen polisi cadwyn oer i sicrhau ei bod yn cyfeirio at y polisi cenedlaethol perthnasol ac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau.

Gwelsom gofnodlyfrau a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau tymheredd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd ac roedd cofnod data mewnol ar gael yn yr oergelloedd y gellid cael gafael arnynt fel y bo angen. Roedd y staff yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd pe bai achos o dorri'r polisi cadwyn oer a disgrifiwyd enghraifft diweddar lle methodd y cyflenwad trydan a'r mesurau a gymerwyd. Roedd cynhwysydd addas ar gael i sicrhau bod meddyginiaethau yn aros ar y tymheredd priodol yn ystod ymweliadau â chartrefi.

Roedd prosesau priodol ar waith ar gyfer rhoi gwybod am adweithiau andwyol i gyffuriau, gan ddefnyddio'r system cerdyn melyn, ac ar gyfer gwaredu meddyginiaethau yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio. Roedd dyddiadau'r holl gyffuriau y gwnaethom edrych arnynt yn ystod yr arolygiad yn gyfredol. Roedd y practis wedi enwebu unigolyn a dirprwyon i fod yn gyfrifol am archwilio'r cyffuriau bob wythnos.

Roedd cyffuriau a chyfarpar adfywio priodol ar gael i'w defnyddio yn ystod argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar yn cael ei wirio'n ddyddiol a bod y cyffuriau brys yn cael eu gwirio'n wythnosol. Roedd y cyfarpar hwn yn cynnwys Diffibriliwr Allanol Awtomataidd, â phadiau ar gyfer oedolion a phlant. Nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos bod y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ar gael yn y practis.

Dylai'r practis arddangos arwyddion i ddangos lleoliad y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd.

Roedd cyffuriau brys i'w defnyddio wrth gynnal proses adfywio cardiopwlmonaidd yn cael eu storio gyda'r cyfarpar brys. Roedd cyffuriau brys eraill yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo mewn ystafell drin, yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd. Nid oedd arwyddion ar y cwpwrdd a ddefnyddir i storio cyffuriau brys i nodi hyn. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad. Anfonodd y nyrs arweiniol neges e-bost at bob aelod o staff i'w hysbysu ynghylch lleoliad y cyffuriau a'r allwedd i'r cwpwrdd.

Gwnaethom argymhell y dylid storio unrhyw gyffuriau a ddefnyddir ar gyfer argyfyngau meddygol mewn lleoliad ar wahân y gellir ei gyrraedd yn hawdd pe bai argyfwng. Dylid nodi 'I'w defnyddio mewn argyfwng' yn glir ar y meddyginiaethau hyn a'u storio mewn cynhwysydd â sêl ddiogelwch arno. Dywedodd y staff wrthym fod y bwrdd iechyd yn bwriadu darparu trolïau brys â sêl ddiogelwch arnynt i wasanaethau maes o law, lle byddai'r holl gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu storio gyda'i gilydd.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd prosesau ar waith i nodi unigolion â phryderon diogelu a sicrhau bod llwybr diogelu addas yn cael ei ddilyn.

Roedd un o'r meddygon teulu yn gweithredu fel yr arweinydd diogelu ar gyfer oedolion ac un arall fel arweinydd diogelu ar gyfer plant. Roedd yr holl feddygon teulu wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at lefel tri a defnyddiwyd sesiwn addysg gwarchodedig ddiweddar i ddiweddar eu gwybodaeth am ddiogelu.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd diogelu plant yn rheolaidd, a oedd yn cynnwys y ddau arweinydd diogelu, ymwelydd iechyd a gweithiwr cymdeithasol. Roedd y practis yn cadw rhestr o blant sy'n peri pryder a oedd yn cael ei thrafod yn y cyfarfodydd. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cysylltu â chofnodion teulu lle y bo'n briodol, gyda meddygon teulu yn dileu'r rhybuddion pan fo hynny'n briodol. Roedd rhybudd wedi'i osod ar gofnodion pob claf a oedd wedi'i gynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant.

Roedd pryderon diogelu yn ymwneud ag oedolion yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd adolygu achosion wythnosol ar-lein a oedd yn cynnwys nyrs, cydgysylltydd gofal y practis, nyrsys ardal, a staff o'r gwasanaethau cymdeithasol. Byddai unrhyw ganfyddiadau'n cael eu rhannu â'r meddygon teulu fel y bo'n briodol.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol mewn cyflwr da ac yn ddiogel i'w defnyddio, a bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal arnynt. Rheolwr y practis oedd yn bennaf cyfrifol am wirio dyfeisiau a threfnu eu bod yn cael eu hatgyweirio neu fod dyfeisiau newydd ar gael.

Roedd eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol ac yn cael eu gwaredu'n gywir.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd system ffôn y practis yn cynghori galwyr â chyflyrau brys i ddeialu 999. Dangosodd y staff a oedd wedi cael hyfforddiant ar lywio gofal ymwybyddiaeth dda o ran sut i nodi argyfyngau lle roedd bywyd yn y fantol a chyfeirio at help. Rhoddwyd enghraifft lle disgrifiodd y staff un achos lle daeth claf i'r practis gyda phoen yn y frest a chafodd y camau priodol eu cymryd. Byddai cleifion a oedd yn cysylltu â'r practis ag argyfwng iechyd meddwl yn cael eu cyfeirio at feddyg teulu.

Disgrifiodd y staff broses drefnus addas ar gyfer archebu profion ac ymdriniwyd â cheisiadau brys ar yr un diwrnod fel arfer. Roedd contract un meddyg teulu yn nodi

y gall weithio o bell a'i fod yn adolygu'r holl ganlyniadau a gafwyd y diwrnod hwnnw ac yn dyrannu tasgau fel y bo angen. Byddai'r practis yn cysylltu â'r cleifion yr oedd angen iddynt drefnu apwyntiad dilynol, fel arall gallai'r cleifion ofyn am ddiweddariad ar ôl pythefnos ond ni fyddai'r practis yn cysylltu â nhw fel mater o drefn.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddygol electronig 10 claf. Roedd y rhain yn cael eu storio'n briodol a'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Nid oedd cofnodion papur yn cael eu cadw ar y safle ond gellid gofyn amdanynt o'r man storio pe bai angen.

Roedd y naratifau ymgynghori yn drwyadl ac roedd tystiolaeth o benderfyniadau priodol, cynlluniau rheoli addas ac atgyfeiriadau priodol pan fo angen. Roedd cofnodion y cleifion wedi'u cwblhau ar y pryd, ac roedd y wybodaeth wedi'i chyflwyno mewn ffordd a oedd yn ei gwneud yn hawdd i glinigwyr eraill ei gweld. Gwelsom fod codau Read clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gyson, gan gefnogi prosesau dadansoddi ac archwilio.

Gwelsom un enghraifft lle cafodd meddyginiaeth gwrth-salwch (Domperidone) ei rhagnodi gan feddyg teulu locwm i ferch yn ei harddegau, lle nad oedd y gofynion i wneud hynny yn sicr nac yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol.

Dylai'r practis ddosbarthu'r canllawiau cyfredol ar gyfer rhagnodi domperidone i bob rhagnodwr, gan gynnwys y meddygon teulu locwm.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Gallai'r cleifion atgyfeirio eu hunain at nifer o wasanaethau drwy'r practis, fel gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu, rheoli pwysau, iechyd rhywiol a chynllunio teulu.

Roedd y practis yn gweithio gyda gwasanaethau eraill i gydlynu gofal, fel atgyfeirio cleifion at yr adran radioleg yn yr uned mân anafiadau lleol. Byddai'r canlyniadau'n cael eu hanfon at radiolegydd yn y prif ysbyty er mwyn iddo ddehongli a rhoi cyngor i'r claf pe byddai angen iddo fynd i'r ysbyty.

Dywedodd y staff nyrsio wrthym eu bod yn teimlo y gallai'r llwyth gwaith gael ei ddosbarthu yn fwy effeithiol rhwng aelodau o'r tîm nyrsio. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch ailstrwythuro'r templed apwyntiadau er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd y practis yn cael ei reoli gan y bwrdd iechyd ac roedd y rolau rheoli allweddol yn y practis yn cynnwys Rheolwr Gwasanaethau Iechyd a Rheolwr Practis, ac roedd Pennaeth Gwasanaethau ar gyfer Practisau a Reolir yn goruchwyllo sawl practis a reolir yn yr ardal. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw un yn ymgymryd â rôl y Rheolwr Gwasanaethau Iechyd ac roedd y practis wrthi'n recriwtio ar ei chyfer.

Dywedodd y staff wrthym fod recriwtio a chadw staff wedi bod yn fater sylweddol a pharhaus yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd hyn yn cynnwys gostyngiad yn niferoedd y staff, aelodau o staff yn gweithio llai o oriau ac anawsterau o ran cael gafael ar gyllideb i recriwtio ar gyfer swyddi presennol. Oherwydd hyn, roedd yn rhaid i staff gweinyddol a staff clinigol ymgymryd â dyletswyddau derbynfa.

Gwnaethom nodi bod nifer o'r materion recriwtio a ddisgrifiwyd i ni y tu hwnt i reolaeth y practis a gaiff ei reoli gan y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylai'r practis barhau i weithio gyda'r bwrdd iechyd i nodi unrhyw faterion a mynd i'r afael â nhw.

Rhaid i'r practis wneud pob ymdrech i sicrhau bod y lefelau staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir.

Dywedwyd wrthym fod y materion a godwyd yn sgil y niferoedd staffio wedi cyfrannu at forâl isel ac wedi effeithio ar gydberthnasau gwaith.

Fodd bynnag, roedd rhai aelodau o'r staff yn teimlo bod mentrau a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn gadarnhaol. Dywedwyd wrthym fod sesiynau 'win and whinge' wythnosol wedi cael eu cyflwyno a'u bod yn llwyddiannus. Roedd elfen addysgol i'r sesiynau hyn ac roeddent yn gyfle i'r staff godi pryderon neu drafod unrhyw faterion a datrysiadau posibl.

Disgrifiodd Rheolwr y Gwasanaeth adolygiad diweddar lle roedd wedi cynnal trafodaethau un i un â phob aelod o'r staff yn y practis, er mwyn trafod morâl a sut i feithrin cydberthnasau gwaith mwy effeithiol. Byddai'r adolygiad yn cael ei drafod â staff adran adnoddau dynol y bwrdd iechyd er mwyn nodi camau gweithredu posibl.

Roedd arweinwyr dynodedig ar waith, gan gynnwys arweinwyr nyrsio, atal a rheoli heintiau, arweinwyr derbynfa a gweinyddol. Gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff yn glir ynghylch eu rolau a phwysigrwydd gweithio o fewn y cyfrifoldebau a ddirprwyir ar eu cyfer. Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaeth amlinelliad o'r gwaith a oedd yn mynd rhagddo er mwyn:

- cysylltu disgrifiadau swydd â thasgau gweithredol yn y practis
- egluro rolau a chyfrifoldebau penodol y Rheolwr Gwasanaethau Iechyd a Rheolwr y Practis

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff rolau a chyfrifoldebau eu nodi'n glir a bod y staff yn eu deall.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y practis yn dibynnu ar bolisiau'r bwrdd iechyd nad oeddent yn benodol i'r practis. Lle roedd polisiau a gweithdrefnau lleol yn cael eu defnyddio, roedd diffyg gwybodaeth am reoli dogfennau, fel dyddiadau cyhoeddi ac adolygu, hanes y fersiwn a pherchennog y ddogfen.

Rhaid i'r practis adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau er mwyn:

- sicrhau eu bod yn benodol i'r practis lle y bo'n briodol
- sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau

Yn ystod yr arolygiad, roedd y staff yn rhan o'r broses ac roeddent yn barod i dderbyn cyngor ar feysydd i'w gwella.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom dystiolaeth dda o ddatblygiad staff. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys defnyddio amser addysgu gwarchodedig bob mis, hyfforddiant fel rhan o'r sesiynau 'win and whinge' a rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng staff clinigol. Roedd y nyrs arweiniol wedi cwblhau cymhwyster gradd meistr yn ddiweddar i ddatblygu cwrpas ei hymarfer ac mae wedi cymhwyso fel Uwch-ymarferydd Nyrsio a rhagnodwr.

Dywedwyd wrthym fod metron glinigol y bwrdd iechyd yn barod i helpu, gan gynnwys wrth gynnal adolygiad blynyddol a dadansoddiad o anghenion hyfforddiant y staff.

Wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff gwelsom gydymffurfiaeth wael â'r gofynion hyfforddiant gorfodol. Gwelsom enghreifftiau lle roedd hyfforddiant wedi

dod o ben ac enghreifftiau eraill lle nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant.

Roedd y practis yn defnyddio system electronig i fonitro cydymffurfiaeth â'r gofynion hyfforddiant gorfodol. Roedd y system hon yn dangos yr aelodau o staff nad oeddent wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf canlynol:

- Diogelwch tân
- Iechyd, Diogelwch a Lles
- Symud a chodi a chario
- Atal a rheoli heintiau

Roedd hyn yn peri mwy o risg i ddiogelwch y cleifion a'r staff ac ymdriniwyd â'r mater o dan broses sicrwydd ar unwaith AGIC. Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm clinigol rheolaidd, gan gynnwys cyfarfodydd ar gyfer y meddygon teulu, rhagnodwyr a thimau gofal lliniarol a diogelu. Dywedodd y staff wrthym y byddai cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y tîm rheoli a staff y dderbynfa yn cael eu cynnal fel rheol, ond nad oeddent wedi cael eu cynnal yn y misoedd diwethaf oherwydd problemau staffio.

Drwy weithio gydag academi gofal sylfaenol BIPBC, cynhaliodd y practis Hwb Sgiliau, Addysg a Hyfforddiant er mwyn helpu i ddatblygu clinigwyr dan hyfforddiant. Roedd yr hyfforddeion yn cynnwys meddygon, nyrsys a pharafeddygon ac roeddent yn cael eu cefnogi a'u goruchwyllo gan y practis a'r academi.

Roedd y practis yn defnyddio polisiau recriwtio a sefydlu y bwrdd iechyd. Roedd gwiriadau cyn cyflogi ar gyfer aelodau newydd o'r staff yn cael eu rheoli'n ganolog gan y bwrdd iechyd drwy ddefnyddio system electronig (TRAC). Gwelsom fod y gwiriadau a oedd wedi'u cynnal yn briodol ac yn cynnwys gwiriadau drwy ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Gallai'r practis ddefnyddio system TRAC i fonitro cydymffurfiaeth â thasgau gofynnol ac roedd yn ofynnol i'r holl gamau gael eu cwblhau cyn i'r unigolyn ddechrau yn ei swydd.

Rhaid i'r practis roi proses sefydlu leol ar waith ar gyfer pob aelod newydd o staff parhaol a staff dros dro.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn defnyddio polisi pryderon integredig y bwrdd iechyd ar gyfer delio â chwynion. Roedd copïau o daflenni a phosteri Gweithio i Wella y GIG ar gael yn hwylus yn yr ardal aros i gleifion, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion yn cael eu cyfeirio at reolwr y practis a'u hanfon at dîm cwynion BIPBC i'w cofnodi fel adborth ar y system Datix ganolog ac ymatebir iddynt fel y bo'n briodol.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod canlyniadau a phwyntiau dysgu o gwynion yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd tîm a'u trafod ag aelodau penodol o staff os yw'n berthnasol.

Fel arfer, roedd tîm y dderbynfa neu reolwr y practis, fel y bo'n briodol, yn mynd i'r afael â chwynion neu adborth llafar yn anffurfiol. Rydym yn argymhell y dylid trafod adborth llafar fel mater o drefn yn ystod cyfarfodydd tîm fel pwyntiau dysgu ac er mwyn rhoi gwybod i'r staff.

Gwnaethom argymhell y dylid trafod adborth a chwynion llafar fel mater o drefn yn ystod cyfarfodydd tîm.

Roedd y practis yn cynnal arolygon profiad y claf yn flynyddol ac roedd posterï â chodau QR yn cael eu harddangos yn annog y cleifion i roi adborth. Dywedodd y staff wrthym fod blwch awgrymiadau wedi'i leoli yn yr ardal aros yn rheolaidd. Roedd y blwch hwn yn cael ei hyrwyddo fel 'blwch cadarnhaol' er mwyn i'r cleifion gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliannau.

Nid oedd gan y practis broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion p'un a oedd wedi gweithredu ar adborth, na sut.

Dylai'r practis ystyried rhoi gwybod i gleifion sut roedd wedi gweithredu ar eu hadborth, er enghraifft drwy ddefnyddio hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Roedd y practis yn defnyddio polisi Dyletswydd Gonestrwydd y bwrdd iechyd a dywedwyd wrthym fod y staff wedi bod i weithdai ac wedi cwblhau hyfforddiant ar-lein ar y pwnc.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliadau

Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR). Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Roedd y practis yn defnyddio polisi llywodraethu gwybodaeth y bwrdd iechyd. Roedd yn ofynnol i'r staff gwblhau hyfforddiant gorfodol, ond dengys y cofnodion nad oedd chwe aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar lywodraethu gwybodaeth.

Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu gwybodaeth.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd dystiolaeth bod archwiliadau'n cael eu cynnal er mwyn monitro ansawdd. Dywedwyd wrthym fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â phob rhan o'r practis er mwyn gwneud gwelliannau.

Nodwyd gennym fod prosesau da ar waith yn y practis i gynnal a chofnodi adolygiadau o ddigwyddiadau o bwys. Gwnaethom adolygu digwyddiad a gwelsom ei fod wedi cael ei reoli yn briodol a bod maes i'w wella a nodwyd wedi cael ei rannu â'r staff a'i roi ar waith.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd y practis yn rhan allweddol o'r gymuned leol, ac yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a chyfeirio cleifion at wasanaethau, cyngor a chymorth eraill.

Gan fod y practis yn cael ei reoli gan y bwrdd iechyd, roedd cysylltiadau cryf ar waith rhwng y practis a gwasanaethau ehangach y bwrdd iechyd. Roedd y practis yn gweithio gydag eraill yn y clwstwr a phractisau eraill a reolir gan y bwrdd iechyd.

Roedd dystiolaeth bod y practis yn gweithio gyda'r clwstwr a phractisau eraill a reolir gan y bwrdd iechyd. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys cyfarfodydd ar-lein a'r defnydd o fewnrwyd a rennir i rannu gwybodaeth â staff. Roedd rhai aelodau o'r staff yn gweithio ar draws y clwstwr, gan gynnwys tri Ymarferydd Gofal Brys, a oedd yn gweithio yng Nghanolfan Iechyd Criccieth ar ddiwrnodau penodol. Dywedodd y staff wrthym fod angen cyflwyno prosiect peilot a chynllun busnes cysylltiedig er mwyn cael cyllid gan y clwstwr.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Roedd cyffuriau brys i'w defnyddio i drin anaffylacsis yn cael eu storio gyda'r cyfarpar brys. Roedd cyffuriau brys eraill yn cael eu storio mewn cwpwrdd dan glo mewn ystafell drin. Nid oedd arwyddion ar y cwpwrdd a ddefnyddir i storio cyffuriau brys i nodi hyn.	Rhaid sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o leoliad y cyffuriau brys pe bai argyfwng meddygol.	Cafodd hyn ei godi gyda'r nyrs arweiniol.	Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad. Anfonodd y nyrs arweiniol neges e-bost at bob aelod o staff i'w hysbysu ynghylch lleoliad y cyffuriau a'r allwedd i'r cwpwrdd.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Criccieth

Dyddiad yr arolygiad: 15 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant gorfodol diweddaraf a nodir gan y practis a / neu'r Bwrdd Iechyd, a bod y staff yn cael eu goruchwyllo er mwyn sicrhau eu bod yn ei gwblhau'n amserol	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023: Diogel / Gweithlu	1. Bydd Rheolwr y Practis yn nodi amseroedd addas yn ystod shifftiau aelodau o staff er mwyn iddynt gwblhau'r hyfforddiant gorfodol priodol sy'n weddill. 2. Caiff adolygiadau wythnosol eu cynnal gan Reolwr y Practis a Phennaeth y Gwasanaeth ar gyfer Practisau a Reolir i sicrhau y caiff lefelau cydymffurfiaeth eu cyrraedd. 3. O ran y meddygon teulu neu'r nyrsys, bydd y Fetron/Nyrs Arweiniol ar gyfer Practisau a Reolir a'r meddyg teulu clinigol	1 & 2: Rheolwr y Practis Pennaeth y Gwasanaeth 3: Metron/Nyrs Arweiniol Meddyg Teulu	Cwblhau erbyn 31 Awst 2025

				arweiniol yn rheoli'r perfformiad lle y bo angen.	Clinigol Arweiniol	
--	--	--	--	---	-----------------------	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Carys Greer

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 18 Gorffennaf 2025

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Iechyd Criccieth

Dyddiad yr arolygiad: 15 Gorffennaf 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd unrhyw fersiwn wedi'i hargraffu o'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis.	Rhaid i'r practis sicrhau bod taflen wybodaeth i gleifion ar gael yn hwylus yn y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Bydd taflenni gwybodaeth i gleifion dwyieithog/print bras ar gael yn y practis.	Gweinyddydd Arweiniol	30/10/2025
2.	Gwnaethom gynghori bod angen diweddaru'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys ar wefan y practis.	Dylai'r practis adolygu a diweddaru cynnwys gwefan y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff y wybodaeth ar y wefan ei diweddaru.	Cydgysylltydd Llif Gwaith a'r Gweinyddydd Arweiniol	30/11/2025
3.	Roedd y sgrin a oedd ger desg y dderbynfa yn amharu ar y	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff mesurau eu rhoi ar waith er mwyn gwneud yn siŵr y gellir cyfathrebu â	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Mae Dolen Sain a system Microffon wedi cael eu gosod.	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	trefniadau cyfathrebu, a oedd yn golygu bod angen i'r staff a'r cleifion siarad yn uwch.	chleifion ger desg y dderbynfa yn effeithiol ac yn breifat.		Mae hwb ffôn preifat wedi cael ei osod i ffwrdd o ardal y dderbynfa er mwyn cynnal cyfrinachedd a lleihau sŵn cefndirol.		
4.	Roedd gwybodaeth am argaeledd hebryngwyr ar gael ar wefan y practis ond nid oedd wedi'i harddangos yn glir ar y safle.	Rhaid i'r practis adolygu a diweddarau'r polisi hebryngwr ac arddangos gwybodaeth am y gwasanaeth i gleifion yn glir.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	Caiff manylion am hebryngwyr eu harddangos ym mhob ardal i gleifion.	Rheolwr y Practis	30/09/2025
5.	Nid oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei chynnig ac ni welwyd ei bod ar gael mewn fformatau amgen, fel print bras.	Dylai'r practis ystyried a ellid darparu unrhyw wybodaeth i gleifion mewn fformat print bras.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Teg	Fel y nodwyd ym Mhwynt 1, caiff adolygiad o'r fformatau sydd ar gael ei gynnal, a bydd mannau gwybodaeth yn cyfeirio'r cleifion at fformatau amgen	Gweinydddydd Arweiniol a'r Derbynnydd Arweiniol	31/10/2025
6.	Roedd Cynllun Parhad Busnes ar waith, ond roedd angen ei adolygu i sicrhau ei fod yn gyfredol, yn	Rhaid i'r practis adolygu'r Cynllun Parhad Busnes er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol, yn berthnasol i'r practis ac yn cynnwys	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Caiff Adolygiad o'r Cynlluniau Parhad Busnes ei gynnal a bydd addasiadau yn cael eu gwneud iddynt yn ôl yr angen.	Rheolwr Gwasanaethau lechyd a Rheolwr y Practis	1/12/2025

	berthnasol i'r practis ac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau.	gwybodaeth am reoli dogfennau.				
7.	Nid oedd siartiau llif a oedd yn dangos y broses i'w dilyn pe bai anaf a achosir gan nodwydd yn cael eu harddangos yn yr ystafelloedd clinigol.	Dylai'r practis sicrhau y caiff siartiau llif sy'n dangos y broses i'w dilyn pe bai anaf a achosir gan nodwydd eu harddangos yn yr ystafelloedd clinigol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Caiff copïau wedi'u lamineiddio eu creu a'u harddangos ym mhob ardal glinigol	Nyrs Arweiniol y Practis Metron Practis a Reolir	30/09/2025
8.	Nid oedd prosesau ffurfiol ar waith i asesu ac archwilio i'r ymgynghoriadau a'r trefniadau rhagnodi a gynhelir gan y meddygon teulu locwm a'r rhagnodwyr anfeddygol.	Dylai'r practis sicrhau y caiff yr ymgynghoriadau a'r trefniadau rhagnodi a gynhelir gan feddygon teulu locwm a rhagnodwyr anfeddygol eu harchwilio.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Rydym wedi datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer rhagnodwyr anfeddygol yn unol â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a chanllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ac rydym wedi'i chyflwyno i gymeradwyo'r	Meddyg Teulu Clinigol Arweiniol Pennaeth Fferylliaeth Metron Practis a Reolir	31/11/2025

				prosesau llywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau blynyddol o bresgripsiynau. Caiff y Weithdrefn Weithredu Safonol ei rhoi ar waith.		
9.	Roedd dogfen gyfredol ar waith ar gyfer y broses cadwyn oer. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen hon yn cynnwys cyfeiriad at bolisi cenedlaethol nac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau, fel dyddiad adolygu.	Dylai'r practis adolygu dogfen polisi cadwyn oer i sicrhau ei bod yn cyfeirio at y polisi cenedlaethol perthnasol ac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Effeithlon	Byddwn yn cynnal adolygiad o'r ddogfennaeth bresennol ar y broses cadwyn oer a'r polisiau cysylltiedig ar unwaith ac yn sicrhau ein bod yn rheoli'r fersiynau.	Nyrs Arweiniol y Practis Metron Practis a Reolir Pennaeth Fferylliaeth	30/09/2025
10.	Nid oedd unrhyw arwyddion i ddangos bod y	Dylai'r practis arddangos arwyddion i ddangos	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Rydym wedi creu arwyddion a'u harddangos i dynnu	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

	Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ar gael yn y practis.	lleoliad y Diffibriliwr Allanol Awtomataidd.		sylw at y ffaith bod Diffibriliwr Allanol Awtomataidd ar gael ac i nodi ei leoliad		
11.	Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom un enghraifft lle cafodd meddyginiaeth gwrth-salwch ei rhagnodi gan feddyg teulu locwm, lle nad oedd y gofynion i wneud hynny yn sicr nac yn cydymffurfio â'r canllawiau cyfredol.	Dylai'r practis ddosbarthu'r canllawiau cyfredol ar gyfer rhagnodi domperidone i bob rhagnodwr, gan gynnwys y meddygon teulu locwm.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Diogel	Mae'r canllawiau cyfredol ar ragnodi domperidone wedi cael eu rhannu â phob rhagnodwr, gan gynnwys y Meddygon Teulu Locwm. Rydym wedi trafod y mater hwn yn ystod ein cyfarfod clinigol 'win and whinge' lleol.	Meddyg Teulu Clinigol Arweiniol Rheolwr Gwasanaethau lechyd	Wedi'i gwblhau Rydym wedi rhannu'r neges e-bost/cofnodion
12.	Dywedodd y staff wrthym fod recriwtio a chadw staff wedi bod yn fater sylweddol a pharhaus yn ystod	Rhaid i'r practis wneud pob ymdrech i sicrhau bod y lefelau staff yn briodol ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu	Rydym wedi recriwtio Rheolwr Gwasanaethau lechyd, a dau aelod parhaol o Staff y Dderbynfa/ Gweinyddol yn	Pennaeth Practisau a Reolir y Bwrdd lechyd	31/10/2025

	y misoedd diwethaf.			ddiweddar i ymuno â'r tîm. Bydd Rheolwr y Practis yn cwblhau adolygiadau dyddiol o'r staff i sicrhau bod y lefelau staffio yn ddiogel, gan gyflwyno diweddariad staff dyddiol i Bennaeth y Gwasanaeth i'w gymeradwyo		
13.	Gwelsom nad oedd rhai aelodau o'r staff yn glir ynghylch eu rolau, eu cyfrifoldebau a phwysigrwydd gweithio o fewn y cyfrifoldebau a ddirprwyir ar eu cyfer.	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff rolau a chyfrifoldebau eu nodi'n glir a bod y staff yn eu deall.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu	Mae Cynllun y Gweithlu wrthi'n cael ei ddatblygu. Rydym wedi cynnal cyfarfod un i un â phob aelod o'r staff i amlinellu eu rolau a'u cyfrifoldebau yn unol â'u disgrifiadau swydd.	Cyfarwyddwyr Gofal lechyd Annibynnol y Gorllewin PBC Pennaeth Gwasanaeth Practisau a Reolir y Bwrdd lechyd Partner Busnes Pobl	31/11/2025

14.	Roedd ystod o bolisiau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar waith. Lle roedd polisiau a gweithdrefnau lleol yn cael eu defnyddio, roedd diffyg gwybodaeth am reoli dogfennau, fel dyddiadau cyhoeddi ac adolygu, hanes y fersiwn a pherchennog y ddogfen.	Rhaid i'r practis adolygu ei bolisiau a'i weithdrefnau er mwyn: • sicrhau eu bod yn benodol i'r practis lle y bo'n briodol • sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth am reoli dogfennau	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Effeithlon	Byddwn yn nodi unrhyw bolisiau gan y bwrdd iechyd sy'n berthnasol i'r practis nad ydynt o bosibl yn gyfredol, ac uwchgyfeirio'r mater at y tîm corfforaethol. Caiff yr holl bolisiau a gweithdrefnau lleol eu hadolygu; caiff y fersiynau eu rheoli, a bydd y dyddiadau cyhoeddi ac adolygu ac enw'r awdur yn cael eu cynnwys. Caiff rhestr o bolisiau lleol ei llunio a'i chynnwys ar gylchred busnes y cyfarfod llywodraethu.	Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Pennaeth Gwasanaeth Practisau a Reolir	30/11/2025
15.	Roedd y practis yn defnyddio polisiau recriwtio a sefydlu y bwrdd iechyd.	Dylai'r practis ystyried rhoi proses sefydlu leol ar waith, gan gynnwys materion sy'n berthnasol i'r practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Y Gweithlu	Caiff pob aelod newydd o staff ei gynnwys ar gynllun Sefydlu Corfforaethol y Bwrdd Iechyd; bydd	Tîm Rheoli'r Practis	Wedi'i gwblhau

				y cynllun hwn hefyd yn cynnwys y gofynion hyfforddiant Gorfodol. Mae proses Sefydlu leol wedi cael ei chreu ar gyfer y practis ac mae wrthi'n cael ei rhoi ar waith wrth i bobl newydd ddechrau yn eu rolau.		Cofrestrau lleol ar gyfer y broses sefydlu
16.	Fel arfer, roedd tîm y dderbynfa neu reolwr y practis, fel y bo'n briodol, yn mynd i'r afael â chwynion neu adborth llafar yn anffurfiol.	Gwnaethom argymhell y dylid trafod adborth a chwynion llafar fel mater o drefn yn ystod cyfarfodydd tîm.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Dysgu, Gwella ac Ymchwil	Byddwn yn cynnwys adborth o gwynion diweddar ar agendâu y cyfarfodydd tîm misol er mwyn dysgu ohono a gweithredu arno.	Rheolwr y Practis Meddyg Teulu Clinigol Arweiniol	30/10/2025 Cofnodion
17.	Nid oedd gan y practis broses ar gyfer rhoi gwybod i gleifion p'un a oedd wedi gweithredu ar adborth, na sut.	Dylai'r practis ystyried rhoi gwybod i gleifion sut roedd wedi gweithredu ar eu hadborth, er enghraifft drwy ddefnyddio hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Dysgu, Gwella ac Ymchwil	Byddwn yn rhannu'r gwersi rydym wedi'u dysgu o'r adborth gan gleifion drwy'r canlynol: Grŵp Cyfranogiad Cleifion	Rheolwr Gwasanaethau lechyd, Rheolwr y Practis a'r Cydgysylltydd Llif Gwaith	30/11/2025

				Hysbysfyrddau Gwybodaeth i Gleifion ym mhob rhan o'r adeilad ar themâu penodol		
18.	Wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff, gwelsom nad oedd chwe aelod o'r staff wedi ymgymryd â'r hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth diweddaraf.	Rhaid i'r practis sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ar lywodraethu gwybodaeth.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Y Gweithlu	Bydd hyfforddiant gorfodol y staff yn fater o ffocws parhaus er mwyn sicrhau y caiff lefelau cydymffurfiaeth o 85% eu cyrraedd	Tîm Rheoli'r Practis	31/10/2025 Rhoddir gwybod amdano drwy LDG

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Chris Couchman

Teitl swydd: Cyfarwyddwr Cyswllt Gofal Sylfaenol

Dyddiad: 10 Gorffennaf 2025